THE BIG WELSH CHALLENGE

## North Wales: Entry Level

## Unit 14: Discussing ill health / Scene 2: Eisteddfod-itis

Taid gets to the bottom of Nicola and Ben's illness

| | |
|---|---|
| **TAID:** | Reit, blant! Amser brecwast!<br>Right, children! Breakfast time! |
| **NICOLA:** | Fy mol i...<br>My stomach… |
| **TAID:** | Be' sy'n bod?<br>What's the matter? |
| **NICOLA:** | Dw i ddim isio brecwast. Dw i'n sâl. Mae gen i boen bol.<br>I don't want breakfast. I'm ill. I've got a bad stomach. |
| **TAID:** | Poen bol?<br>A bad stomach? |
| **NICOLA:** | Ia. Mae gen i boen bol ofnadwy.<br>Yes. I've got a terrible bad stomach. |
| **BEN:** | Fy mhen i...<br>My head… |
| **TAID:** | Be' sy'n bod?<br>What's the matter? |
| **BEN:** | Dw i ddim isio brecwast. Dw i'n sâl. Mae gen i gur pen.<br>I don't want breakfast. I'm ill. I've got a headache. |
| **TAID:** | Cur pen?<br>A headache? |
| **BEN:** | Ia. Mae gen i gur pen ofnadwy.<br>Yes. I've got a terrible headache. |
| **TAID:** | Mmm, mae gan Nicola boen bol…<br>Mmm, Nicola's got a bad stomach… |
| **NICOLA:** | Oes. Mae gen i boen bol ofnadwy.<br>Yes. I've got a terrible stomach ache. |

**TAID:** Mmm, ac mae gan Ben gur pen.
Mmm, and Ben's got a headache.

**BEN:** Oes, mae gen i gur pen ofnadwy.
Yes, I've got a terrible headache.

**TAID:** Wel, wel. Od iawn.
Well, well. Very odd.

**BEN:** Dw i ddim isio mynd i'r ysgol heddiw. Dw i isio aros adre.
I don't want to go to school today. I want to stay home.

**NICOLA:** Dw i isio aros adre hefyd.
I want to stay home too.

**TAID:** Un cwestiwn: Ydy Eisteddfod yr ysgol heddiw?
One question: Is the school Eisteddfod today?

**BEN:** Eisteddfod yr ysgol? Dw i ddim yn gwybod. Ydy'r Eisteddfod heddiw, Nicola?
The school Eisteddfod? I don't know. Is the school Eisteddfod today, Nicola?

**NICOLA:** Eisteddfod yr ysgol? Heddiw? Dw i ddim yn siwr.
The school Eisteddfod? Today? I'm not sure.

**TAID:** Does gen ti ddim poen bol, Nicola. A does gen ti ddim cur pen, Ben. Dw i'n gwybod be' sy'n bod.
You haven't got a bad stomach, Nicola. And you haven't got a headache, Ben. I know what's the matter.

**BEN:** Be'?
What?

**TAID:** 'Eisteddfod-itis!'
'Eisteddfod-itis!'

**TAID:** Reit. Dach chi'n bwyta brecwast a dach chi'n mynd i'r ysgol!
Right. You're going to eat your breakfast and you're going to school!

**BEN:** Ocê, Taid...
Ok, Grandad…

**NICOLA:** Iawn, Taid.
Ok, Grandad…


© Copyright 2008